Hawdd ei Ddeall

## Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

# Help â'ch cais Prosiectau Cyfalaf Mawr



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Nodiadau Canllaw Ychwanegol Prosiectau Cyfalaf Mawr**'.

**Tachwedd 2021**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 34**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** capital@arts.wales

**Ffôn:** **03301 242733**

**Gwefan:** arts.wales/about-us/contact-us

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

Cyflwyniad....4

Ynglŷn â'r ddogfen hon ....5

Ynglŷn â'r broses o wneud cais....6

Gyda phwy rydyn ni'n gweithio ....7

Cychwyn eich prosiect....8

Datblygu eich prosiect ....11


Beth sydd arnon ni ei angen gennych chi....14

Os yw eich cais yn llwyddiannus....25

Mwy o wybodaeth ....26

Hard words....34

# Cyflwyniad


Hawdd ei Ddeall

Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

Help â'ch cais Prosiectau Cyfalaf Mawr

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Nodiadau Canllaw Ychwanegol P osiec au Cy alaf Mawr**'.

**Tachwedd 2021**

Bydd y ddogfen hon yn eich helpu â'ch cais am arian o'r gronfa hon ar gyfer eich **prosiect cyfalaf mawr**.



Mae **prosiectau cyfalaf mawr** yn brosiectau adeiladu mawr. Gallan nhw fynd ymlaen am amser hir.



Gall cynllunio **prosiect cyfalaf mawr** fod yn anodd.



Gall gwneud cais am arian o **gronfa** **prosiect cyfalaf mawr** fod yn anodd hefyd.

> Mae **cronfa** yn arian y gall mudiad ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.




Byddwn yn dweud wrthych chi beth sydd arnoch chi angen ei gynnwys yn eich cais. A byddwn yn eich helpu i gynllunio eich prosiect.

# Ynglŷn â’r ddogfen hon



Dim ond os ydych chi wedi cael eich gwahodd i wneud cais am y **gronfa** hon y dylech chi ddefnyddio’r ddogfen hon.



Hawdd ei Ddeall

Cronfa’r Rhaglen Gyfalaf

Gwybodaeth am gronfa’r Rhaglen Gyfalaf

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Ganllaw Cyff edinol ar Raglen Gy alaf Cyngor Celfyddydau Cymru**’.

**Tachwedd 2021**

Fel arall, dylech chi ddarllen **Y Rhaglen Gyfalaf – gwybodaeth am gronfa’r Rhaglen Gyfalaf** yn ei lle.



Darllenwch y ddogfen ar ddechrau eich prosiect.



Yna dewch yn ôl ati wrth i’ch prosiect fynd yn ei flaen. Pan fydd arnoch chi angen edrych ar bethau i fod yn siŵr.



Dylech chi hefyd ddarllen ein **Strategaeth Gyfalaf 2012-2017**. A’r **Rhaglen Gyfalaf – gwybodaeth am gronfa’r Rhaglen Gyfalaf**.




Os oes arnoch chi angen help i lenwi eich cais, mae gennym ni Nodiadau Cymorth ar ein gwefan: [arts.wales/cy/ariannuYnglŷn â’r broses o wneud cais](arts.wales/cy/ariannu)

# Ynglŷn â’r broses o wneud cais

**Mae’n rhaid i chi wneud cais am brosiectau cyfalaf mawr mewn tri cham:**



- edrychwch a yw eich prosiect yn bosibl ei wneud. Ac yn werth ei wneud




- cynlluniwch fanylion **eich prosiect**




- cyfrifwch faint yw’r gost.




Rydyn ni’n defnyddio **Cynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain 2020** i helpu gyda’r broses hon. Gallwch ei weld trwy glicio yma.



Byddwn yn edrych ar bob cam o’ch cais i wneud yn siŵr ei fod yn iawn.


# Gyda phwy rydyn ni'n gweithio



Rydyn ni'n gweithio gydag arbenigwyr i edrych trwy eich cais. Arbenigwyr fel penseiri a chynghorwyr busnes yw'r rhain.



Bydd yr arbenigwyr hyn yn darllen trwy eich cais. Ac yn ysgrifennu adroddiad amdano.




Bydd yr arbenigwyr hyn yn anfon eu hadroddiadau atoch chi.



Gallwch siarad â ni ynglŷn â beth mae'r adroddiad yn ei ddweud.



Rydyn ni'n eich cynghori i weithio gyda **Chomisiwn Dylunio Cymru**. Gallan nhw eich helpu â'ch prosiect.

# Cychwyn eich prosiect



Yn gyntaf bydd arnoch chi angen edrych a yw eich prosiect yn bosibl ei wneud. Ac a yw'n werth ei wneud.



Mae hyn yn cael ei alw'n **astudiaeth dichonoldeb**.




Mae **astudiaeth dichonoldeb** yn dangos eich bod wedi cynllunio eich prosiect yn dda.



Mae **astudiaeth dichonoldeb** yn dangos bod yna angen am eich prosiect. Ac y bydd yn fuddiol i bobl.



Dylech chi fedru dweud wrthyn ni pam y mae eich prosiect yn syniad da.



A pham rydych chi wedi penderfynu ar y prosiect arbennig hwn.




Dylech chi gael arbenigwyr i’ch helpu â’ch **astudiaeth dichonoldeb**. Fel penseiri. A chynghorwyr busnes.

**Dylech chi feddwl:**



- a yw’r lleoliad iawn gennych chi ar gyfer eich prosiect




- pa mor fawr a manwl y bydd eich prosiect




- am gostau - yn ystod ac ar ôl y prosiect



- am amddiffyn yr **amgylchedd**

> Yr **amgylchedd** yw’r lle rydyn ni’n byw. Mae’n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy’n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.



- sut y byddwch chi'n cynnwys gwaith celfyddyd yn eich prosiect.

**Dylech chi hefyd feddwl:**



- sut y bydd y prosiect hwn yn effeithio ar eich staff. Ac a oes arnoch chi angen cael mwy o staff
- am gael caniatâd i wneud y prosiect
- gwneud amserlen
- beth allai fynd o'i le. A beth y gallwch chi wneud i roi pethau'n iawn.




Bydd eich **astudiaeth dichonoldeb** yn dod â'ch prosiect i ddiwedd **Cam 2 Cynllun Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain, Dylunio Cysyniad**.




Gallwch edrych ar hyn ar Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain 2020 yma. www.architecture.com/knowledge-and-resources/resources-landing-page/riba-plan-of-work

# Datblygu eich prosiect



Y cam nesaf yw’r lle y byddwch chi’n cynllunio holl fanylion eich prosiect.




Mae hyn yn cynnwys costau ar gyfer eich prosiect. A dyluniadau a darluniau.



Bydd arnoch chi angen cyflogi arbenigwyr i’ch helpu. Fel tîm dylunio. A rheolwr prosiect.



Gall cyflogi pobl yn y ffordd iawn fod yn anodd. Gallwn eich helpu gyda hyn.





Bydd y cam hwn yn dod â’ch prosiect i ddiwedd **Cam 3 Cynllun Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain, Cyd-drefnu Gofodol**.




Gallwch edrych ar hyn ar Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain 2020 yma. www.architecture.com/knowledge-and-resources/resources-landing-page/riba-plan-of-work.

**Yn y cam hwn dylai bod gennych:**




- adroddiad pensaer ynghylch yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud



- cynlluniau o'r adeilad ar ôl iddo gael ei orffen




- gwybodaeth am ddeunyddiau y byddwch chi'n eu defnyddio.




- costau



- gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y byddwch chi'n amddiffyn yr **amgylchedd**



- gwybodaeth am y ffordd rydych chi wedi gwneud yr adeilad yn **hygyrch**.

> Mae **hygyrch** yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.

**Dylai bod gennych hefyd:**




- gynlluniau i gynnwys gwaith celfyddyd gyhoeddus
- gwybodaeth ynghylch pwy sydd arnoch chi ei angen i'ch helpu. A faint y bydd yr help yn ei gostio
- gwybodaeth am y cam nesaf o'r prosiect. Gan gynnwys amserlen
- cynllun busnes ar gyfer yr adeg pan fydd y prosiect wedi'i orffen.




Dylech chi wneud yn siŵr eich bod yn dilyn **Rheolau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 2015**.

# Beth sydd arnon ni ei angen gennych chi

Os ydych chi'n gwneud prosiect cyfalaf mawr, mae arnon ni angen i chi wneud rhai pethau. Fel:

## Ystyried y dyfodol



Mae'n rhaid i ni ddilyn **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.




Mae'r ddeddf hon yn amddiffyn pobl yn y dyfodol trwy ddatblygu Cymru gryfach yn awr.




Gallwch gael mwy o wybodaeth yma. llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymruDylai eich prosiect helpu i adeiladu Cymru gryfach hefyd.



Dywedwch wrthyn ni sut y byddwch chi'n gwneud hyn.

# Ystyriwch yr amgylchedd



Dylech chi amddiffyn yr **amgylchedd** yn ystod eich prosiect. Ac wedyn.



Mae hyn yn cael ei alw'n **gynaliadwyedd amgylcheddol.**

Mae **cynaliadwyedd amgylcheddol** yn meddwl amddiffyn yr amgylchedd. Yn awr ac yn y dyfodol.



Gwnewch yn siŵr bod y nwyddau a'r offer rydych chi'n eu defnyddio yn dda ar gyfer yr **amgylchedd**.



Dylech chi gynllunio eich adeilad fel ei fod yn defnyddio llai o wres a thrydan.



Dylech chi fod yn ofalus faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio.



Mae'n rhaid i chi ddangos eich cynlluniau **cynaliadwyedd amgylcheddol** i ni.



**Mae offer a chyngor ar gael i'ch helpu i gynllunio eich cynaliadwyedd amgylcheddol:**

Mae'r **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu** yn offeryn i'ch helpu â **chynaliadwyedd amgylcheddol.**

**Polisi Cynllunio Cymru**

Pennod 4: Cynllunio ar gyfer **Cynaliadwyedd**

Pennod 13: Lleihau a Rheoli Peryglon a Llygredd **Amgylcheddol**

**Llywodraeth Cymru – Canllawiau Ymarfer**

Cynllunio ar gyfer **Cynaliadwyedd**

Ynni Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy mewn Adeiladau


**Rheoliadau Adeiladu 2010 – Dogfennau Cymeradwy**

Rhan L: Arbed Tanwydd ac Ynni



Gallwch gael mwy o wybodaeth yn yr adran **Mwy o Wybodaeth**.

# Cael cynllun o safon dda



Dylech gael cynllun o safon dda ar gyfer eich adeilad.



Dylai eich adeilad fod yn **hygyrch** ar gyfer cymaint o bobl â phosibl. Er enghraifft, pobl ag anabledd corfforol. A phobl ag anableddau dysgu.



Mae'n rhaid i chi ddangos i ni y cynlluniau sydd gennych i wneud eich adeilad yn **hygyrch**.

**Mae arnoch chi angen dilyn y gyfraith a chyngor wrth gynllunio eich adeilad, er enghraifft:**

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r ddeddf hon yn amddiffyn rhai pobl rhag cael eu **gwahaniaethu**.




Bydd rhywun yn **gwahaniaethu** yn eich erbyn pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd, neu eich hunaniaeth rywiol.




## Rheoliadau Adeiladu 2010 – Dogfennau Cymeradwy

Mynediad i Adeiladau. Mae hyn yn ymwneud â'r ffordd o wneud adeiladau'n **hygyrch**.

## Safonau Prydeinig 8300: 2018

Mae hyn yn ymwneud â chynllunio adeiladau i gwrdd ag anghenion pobl anabl.

## Llywodraeth Cymru

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Cynllunio (2016). Mae hyn yn ymwneud â'r ffordd o wneud cynllun o safon dda.



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn yn yr adran **Mwy o wybodaeth**.

## Prynu nwyddau a gwasanaeth ar gyfer eich prosiect




Mae arnoch chi angen prynu nwyddau a gwasanaethau yn y ffordd iawn. Mae hyn yn cael ei alw'n **gaffael.**

Mae **caffael** yn meddwl bod yn rhaid i chi ddilyn rhai deddfau wrth brynu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer busnes. Mae hyn yn cadw pethau'n deg.



Mae'r rheolau ar gyfer **caffael** yn cynnwys yr offer rydych chi'n ei brynu. A'r bobl rydych chi'n eu cyflogi.




Mae gwahanol reolau gan ddibynnu ar faint eich prosiect. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth trwy glicio yma: [www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-new-thresholds-2020](https://www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-new-thresholds-2020)



Mae arnoch chi angen cynllunio ar gyfer yr holl nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n mynd i'w prynu.



A faint mae popeth yn mynd i'w gostio. Mae'n rhaid i chi fedru dangos i ni eich bod wedi dilyn deddfau **caffael**.

# Defnyddio celfyddyd gyhoeddus



Mae'n rhaid bod gennych chi waith celfyddyd yn eich prosiect adeiladu.




Mae hyn yn rhan bwysig o'ch prosiect.



Bydd gwaith celfyddyd yn gwneud i'ch adeilad edrych yn well. Ac yn brafiach i bobl ymweld ag ef.



Hefyd bydd defnyddio gwaith celfyddyd yn eich adeilad yn helpu artistiaid lleol. Trwy roi gwaith iddyn nhw.



Ac yn rhoi rhywle iddyn nhw ddangos eu gwaith.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi gynnwys gwaith celfyddyd. Er enghraifft:



- Celfyddyd ddigidol
- Dodrefn



- Celfyddyd y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad

## Rhedeg prosiect llwyddiannus



Gall rhedeg prosiect mawr fod yn anodd i fudiad.




Gall gymryd llawer o amser ac ymdrech. A chostio llawer o arian.



Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi ei gynllunio a'i redeg yn dda.



Dylech chi lunio grŵp i redeg y prosiect.



Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am wneud y prosiect yn llwyddiannus.




Efallai y bydd y dogfennau hyn gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn ddefnyddiol:

- Llywodraethu Da
- Archwiliad Iechyd y Llywodraeth

## Rheolwyr prosiect



Dylech chi gyflogi rheolwr prosiect proffesiynol ar gyfer eich prosiect.



Dylai eich rheolwr prosiect fod o'r tu allan i'ch mudiad.



Bydd eich rheolwr prosiect yn gwneud yn siŵr bod y prosiect yn cael ei orffen ar amser. Ac nad ydy o'n costio mwy nag yr oeddech chi'n ei ddisgwyl.



Dylech chi weithio'n agos gyda'ch rheolwr prosiect.




Mae rheolwyr prosiect yn ychwanegu costau at eich prosiect. Ond maen nhw'n werth y gost.



Dylech chi gael rheolwr prosiect hyd yn oed os yw eich mudiad yn fach.

# Cynllunio eich costau




Mae arnoch chi angen gwybod faint y bydd eich prosiect yn ei gostio. Yn awr a phan fydd wedi'i orffen.



Dylech chi weithio eich holl gostau yn ofalus.



A dylech chi gynllunio sut yr ydych chi'n mynd i dalu am bopeth.



Os nad ydych chi'n gwybod sut rydych chi'n mynd i dalu am bopeth, ddylech chi ddim gwneud eich prosiect.



Gallai hyn roi eich mudiad mewn perygl.

# Os yw eich cais yn llwyddiannus




Os byddwn ni'n rhoi arian o'r **gronfa** hon i chi, mae arnon ni angen gwneud yn siŵr eich bod yn ei ddefnyddio yn y ffordd iawn.



Byddwn yn edrych a ydych yn ei ddefnyddio yn y ffordd iawn.



A byddwn yn eich helpu i'w ddefnyddio yn y ffordd iawn.




Ond mae arnon ni angen amddiffyn ein hunain os bydd pethau'n mynd o'i le.




Bydd arnoch chi angen arwyddo cytundeb â ni.

# Mwy o wybodaeth





Bydd y mudiadau a’r adnoddau isod yn eich helpu â’ch prosiect.




Rydyn ni’n rhoi’r manylion hyn i chi er gwybodaeth yn unig.



Nid ydyn ni’n argymell unrhyw fudiad arbennig.



Nid ydyn ni’n gyfrifol am yr wybodaeth rydych chi’n ei chael.

# Cynaliadwyedd Amgylcheddol




**BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu)**

www.breeam.org

**Busnes yn y Gymuned Cymru**

www.bitc.org.uk/business-in-the-community-cymru/

**Ymddiriedolaeth Carbon**

www.carbontrust.co.uk

**Centre for Alternative Technology / Canolfan y Dechnoleg Amgen**

cy.cat.org.uk

**Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW)**

http://regenwales.org/

**Cynnal Cymru-Sustain Wales**

https://cynnalcymru.com

**Julie's Bicycle**

www.juliesbicycle.com

# Adnoddau gan 'Julie's Bicycle'




**Energising Culture: A Guide to Future Energy for Cultural Buildings**

juliesbicycle.com/resource-energising-culture-2012

**Green Theatre guide**

juliesbicycle.com/resource-green-theatre-guide-2008

**Green Visual Arts guide**

juliesbicycle.com/resource-green-visual-arts-guide-2010

**Environmental Policy and Action Plan guidelines**

juliesbicycle.com/resource-policy-action-plan-guide

**Sustainable Procurement guide**

juliesbicycle.com/resource-procurement-guide-2015

# Adnoddau gan Lywodraeth Cymru




**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021**

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy**

gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/planning-sustainable-buildings.pdf

**Canllawiau Ymarfer: Ynni Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy mewn Adeiladau**

gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/renewable-and-low-carbon-energy-in-buildings-practice-guidance.pdf

**Dogfen Gymeradwy o Reoliadau Adeiladu Rhan L (Arbed Tanwydd ac Ynni)**

llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-rhan-l-arbed-tanwydd-ac-ynni

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-1-core-guidance.PDF

# Adeiladau hygyrch




**Canolfan Amgylcheddau Hygyrch**
www.cae.org.uk

**Celfyddydau Anabledd Cymru**
disabilityarts.cymru

**Anabledd Cymru**
www.disabilitywales.org

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)**
www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru

**National Register of Access Consultants**
www.nrac.org.uk

**Cyngor Cymru i'r Deillion**
www.wcb-ccd.org.uk

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
www.wcdeaf.org.uk

# Adnoddau'n ymwneud ag adeiladau hygyrch

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents




**BS 8300: 2:2018 Design of Buildings and their approaches to meeting the needs of disabled people**

[www.thenbs.com/PublicationIndex/documents/details?Pub=BSI&DocID=320547](www.thenbs.com/PublicationIndex/documents/details?Pub=BSI&DocID=320547)

**Llywodraeth Cymru**

**Dogfen Gymeradwy y Rheoliadau Adeiladu Rhan M (mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt)**

[llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-rhan-m-mynediad-i-adeiladau-defnydd-ohonynt](llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-rhan-m-mynediad-i-adeiladau-defnydd-ohonynt)

## Cynlluniau ac adeiladwaith o safon dda

**Cymdeithas Technegwyr Theatr Prydain**

[www.abtt.org.uk](www.abtt.org.uk)

**CADW**

[https://cadw.llyw.cymru/](https://cadw.llyw.cymru/)

**Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru**

[http://cy.dcfw.org/](http://cy.dcfw.org/)




**Sefydliad Tirwedd**

www.landscapeinstitute.org

**Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain**

www.architecture.com

**Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru**

www.architecture.com/my-local-riba/rsaw

**Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig**

www.rics.org/uk

**RICS Cymru**

www.rics.org/uk/about-rics/where-we-are/uk-and-ireland/rics-in-wales

## Cynllunio, Pensaernïaeth a Chyrff Proffesiynol

**Arts Council England Building excellence in the cultural sector 2020**

www.artscouncil.org.uk/publication/building-excellence-cultural-sector

**Designing Buildings**

www.designingbuildings.co.uk/wiki/Home




**Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain 'RIBA Plan of Work (2020)**

[www.architecture.com/knowledge-and-resources/resources-landing-page/riba-plan-of-work](www.architecture.com/knowledge-and-resources/resources-landing-page/riba-plan-of-work)

**Llywodraeth Cymru**

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Cynllunio (2016)**

[llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio](llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio)

## Rhedeg prosiect llwyddiannus

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) Llywodraethu da: Côd ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru**

[wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/5.1-Principles-of-Governance.pdf](wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/5.1-Principles-of-Governance.pdf)

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) Canllawiau ymarferol i bwyllgorau rheoli**

[wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/WCVA-Faith-and-Hope-Dont-Run-Charities.pdf](wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/WCVA-Faith-and-Hope-Dont-Run-Charities.pdf)

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) Archwiliadau Iechyd y Llywodraeth**

[wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/WCVA-Governance-Health-Check.pdf](wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/WCVA-Governance-Health-Check.pdf)

# Geiriau anodd

### Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

### Caffael

Mae caffael yn meddwl bod yn rhaid i chi ddilyn rhai deddfau wrth brynu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer busnes. Mae hyn yn cadw pethau'n deg.

### Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall mudiad ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.

### Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn meddwl amddiffyn yr amgylchedd. Yn awr ac yn y dyfodol.

### Gwahaniaethu

Bydd rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd neu eich hunaniaeth rywiol.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.